**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU**
**SIR DDINBYCH 2022**

## Rhif 126 – Grŵp Llefaru Bl 6 ac iau

## DETHOLIAD O NOSON TÂN GWYLLT

Tachwedd ydi'r amser pan fydd y flwyddyn
Yn dod i afael y gaeaf,
Ond mi fyddwn ni am fynnu, am dipyn,
Bod ein byd mor loyw â'r haf.
Ac mi fyddwn ni'n codi coelcerth
Mor anferth ag y medrwn ni
A'i rhoi hi, fel llygedyn o haul,
Yn wyneb y tywyllwch, a byddwn ni
Yn ceisio gwirioni'r dùwch a'i wneud yn araul.

Tân, a rhoced yn ffisian yno
Yn chwap dan do'r awyr,
Yna'n sblasio'n gesair disglair
Ac yn haleliwia o liwiau.

Ac ar y llawr mae yna dân yn cael sterics,
Yn cynddeiriogi'n las gloyw a gwyrdd
Cyn tisian yn gerddorfa drydan
O oleuni.

Troi, troi -oi -oi -oi
Olwyn Catrin wen yn whiw whiw whiwian
Gwreichion arian, arian.

Chwrligwgan yn stryffaglio
A sgleinio'i ffordd yn droellau
Ar i fyny, a bathdy wedyn yn byrstio
Ac yn tollti ceiniogau newydd am ben y tywyllwch.

Ac yna, ar ôl y gwibio,
Y crensian godidog o oleuni,
Y lluwch mawr o liwiau
'Does yna ddim yn aros
Ar ôl o'n hymdrech â'r nos
Ac â'r gaeaf ond dùwch
A diffodd a thywyllwch.
Ond nes daw eto'r haf yn ôl
Mi fydd ein cof ni'n sgleinio
Gan hwyl y noson honno.

**GWYN THOMAS**